Senedd Cymru
Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
—
Welsh Parliament
Legislation, Justice and Constitution Committee

Jeremy Miles AS, y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd
Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

24 Medi 2020

Annwyl gyfeillion

Torri'r rheol 21 diwrnod, a materion eraill yn ymwneud â deddfwriaeth cysylltiedig â Covid

Yn ein cyfarfodydd ar 14 a 21 Medi 2020 gwnaethom ystyried **Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 6) 2020,, Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 7) 2020, Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 8) 2020**, a **Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020**.

Roedd ein hadroddiadau dilynol yn nodi bod yr offerynnau wedi'u gosod **gan dorri'r rheol 21 diwrnod**, a bod y rhesymau dros wneud hynny fel y'u nodwyd yn llythyrau'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd at y Llywydd, yn ôl eu trefn.

Ysgrifennais atoch nifer o weithiau yn ystod y tymor blaenorol yn dweud ei bod yn ymddangos bod achosion o Lywodraeth Cymru yn torri'r rheol 21 diwrnod yn digwydd yn fwyfwy rheolaidd. Er ein bod yn cydnabod ac yn derbyn y gall fod rhesymau dilys dros dorri rheolau o'r fath, yn enwedig o ganlyniad i bandemig y Covid-19, hoffwn ailadrodd y pwynt na ddylid normaleiddio'r arfer o dori'r rheol 21 diwrnod mewn unrhyw fodd.

Hoffwn hefyd gyfleu ein pryderon am eglurder a hygyrchedd y gyfraith o ran y rheoliadau niferus sy'n cael eu gwneud. Er ein bod yn croesawu'r ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi datblygu ei **thudalen we Coronafeirws a'r gyfraith** ei hun, nododd ein gwaith craffu ar y Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 6) 2020 gyfyngiadau'r wybodaeth a ddarperir ar y dudalen we hon, yn enwedig o ran argaeledd rheoliadau diweddar yn Gymraeg. Nodwyd hefyd mai dim ond yn Saesneg y mae fersiwn gyfunol ddiweddar o'r rheoliadau hyn ar gael yn legislation.gov.uk. Ar adeg pan mae gwelliannau'n cael eu gwneud i reoliadau mor aml, rydym yn ei hystyried yn hanfodol bod gwybodaeth glir ar gael er mwyn i'r cyhoedd ddeall yn llawn y newidiadau sy'n digwydd.

Byddwn yn parhau i fonitro amlder ac amgylchiadau achosion o dorri'r rheol 21 diwrnod yn y dyfodol, a pharhau i fonitro hygyrchedd is-ddeddfwriaeth yn ymwneud â Covid ar yr un pryd.

Yn gywir

Mick Antoniw AS
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg
We welcome correspondence in Welsh or English